Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

3 Rhagfyr/December, 2019

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar ddydd Mawrth, 10 Rhagfyr, 2019 yn syth ar ôl cyfarfod o'r Cyngor Sir yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefn i ystyried materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Mrs Annwen Morgan*
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Tuesday, 10 December, 2019 on the arising of the meeting of the County Council at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Mrs Annwen Morgan*
**SECRETARY**

**Ysgrifennydd/Secretary :** Mrs Annwen Morgan **Trysorydd/Treasurer :** Mr. Marc Jones

**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd 24 Medi, 2019.

3 **ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL** (Tudalennau 5 - 8)

**Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**

Cyflwyno cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd, 2019.

**YN CODI O'R COFNODION**

**Dyraniad cyllid ar gyfer Grantiau Mawr**

**'PENDERFYNWYD argymell i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn na ddylid dyrannu cyllid ar gyfer Grantiau Mawr yn 2020 gan y byddai'n lleihau gwerth cronfa'r Ymddiriedolaeth.'**

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | T Ll Hughes MBE (Cadeirydd)<br>Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Lewis Davies, R Dew, Richard Griffiths, Glyn Haynes, K P Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Ll Jones, A M Jones, G O Jones, R.Meirion Jones, Eric Wyn Jones, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAgS, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts, P S Rogers a Dafydd Rhys Thomas. |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | John Griffith, Vaughan Hughes, Alun W Mummery, Shaun James Redmond, Dylan Rees, J A Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

Dymunodd y Cadeirydd ac Aelodau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn dda i'r Ysgrifennydd ar ei ymddeoliad.

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr Trefor Ll Hughes MBE yn Gadeirydd.

Diolchodd Mr Hughes i aelodau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn am eu hyder ynddo.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr Richard O Jones yn Is-gadeirydd.

**3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim wedi'u derbyn.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd fel rhai cywir, cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill, 2019.

**5 ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL**

**Pwyllgor Grantiau Cyffredinol**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2019.

Nododd y Cadeirydd – oherwydd fod cyn lleied o geisiadau am gymorth grant wedi dod i law am arian o'r Gronfa Gymunedol a Chwaraeon – Grantiau Cyfalaf am 2019/20, fod y Pwyllgor Grantiau

Cyffredinol wedi penderfynu y dylid hysbysebu ymhellach y cyfle sydd ar gael i sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau eraill gyflwyno ceisiadau am grantiau gyda dyddiad cau o Rhagfyr 2019 ar gyfer derbyn y cyfryw geisiadau. Yn ei chyfarfod ar 23 Ionawr, 2019, dyrannodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn gyllideb o £125k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ond dim ond £36,422 gafodd ei glustnodi. Nododd ymhellach fod y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol o'r farn y dylid ystyried ceisiadau gan sefydliadau sydd wedi derbyn cymorth grant yn y ddwy flynedd ddiwethaf os oes arian ar gael.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Hysbysebu ymhellach y cyfle i sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau eraill gyflwyno ceisiadau am grant oherwydd fod cyn lleied o geisiadau wedi dod i law;**
- **Bod ceisiadau gan sefydliadau sydd wedi derbyn cymorth grant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn cael eu hystyried os oes arian ar gael.**

**6 LLYWODRAETHIANT YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN (YEYM) A CHYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd ar drosglwyddo asedau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i'r Gymdeithas Elusennol (Y Gymdeithas).

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod y Gymdeithas Elusennol Gorfforedig (CEG) wedi cael ei chreu a'i chofrestru fel endid cyfreithiol ar wahân ond nad yw'n weithredol eto ac nad oes ganddi unrhyw asedau neu rwymedigaethau. Yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin, 2018, rhoddwyd caniatâd amodol i drosglwyddo asedau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn o stiwardiaeth y Cyngor fel unig ymddiriedolwr yr elusen i'r Gymdeithas fel endid ar wahân. Yn unol â'r awdurdod a ddirprwywyd i'r Ysgrifennydd, mae Swyddogion Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn bellach wedi rhoi cyfarwyddyd i Brown Jacobson baratoi'r weithred trosglwyddo asedau gyda dyddiad gweithredu o 30 Medi, 2019. Ar y dyddiad hwnnw, bydd asedau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn trosglwyddo i'r Gymdeithas a'r Gymdeithas wedyn fydd yr endid cyfreithiol sy'n gyfrifol am yr asedau elusennol.

Dywedwyd y bydd angen cyfarfod cychwynnol byr o Gymdeithas Elusennol Ynys Môn yn fuan ar ôl 30 Medi, 2019, er mwyn ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a Swyddogion er mwyn awdurdodi pobl i lofnodi sieciau ac i ddelio gyda'r arian ar ran y Gymdeithasol. Awgrymwyd y dylid trefnu Sesiwn Friffio fel y gall y Gymdeithas gychwyn ystyried ei rhaglen waith newydd ac i ymgymryd â nifer o swyddogaethau er mwyn sicrhau ei bod yn rhedeg yn effeithlon.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r bwriad i drosglwyddo asedau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i Gymdeithas Elusennol Ynys Môn ar 30 Medi, 2019;**
- **Cynnal cyfarfod cychwynnol o'r Gymdeithas Elusennol ar 7 Hydref, 2019;**
- **Trefnu Sesiwn Friffio fel y gall y Gymdeithas ddechrau ystyried ei swyddogaethau.**

**7 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni ym Mharagraff 12(A(4) y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a oedd ynghlwm."**

**8 CAIS AM GYMORTH GRANT GAN GWMNI BUDD CYMUNEDOL CEMAES**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd ar yr uchod.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r cais diwygiedig a gyflwynwyd gan Gwmni Budd Cymunedol Cemaes.**

**Mr Trefor Ll Hughes MBE**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

# Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 5 Tachwedd 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | K P Hughes, T Ll Hughes MBE, R Ll Jones, A M Jones, G O Jones, Alun W Mummery, Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd<br><br>**Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt o hyn allan yn ôl eu teitlau swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Richard O Jones – Is Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Ms Carli Watson – Rheolwr Perthnasau - HSBC Global Management (UK) Limited,<br>Mr Robert Steward – Ymgynghorydd Buddsoddiadau Elusennol - HSBC Global Management (UK) Limited. |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Cafodd Mr T Ll Hughes MBE ei ethol yn Gadeirydd.

Diolchodd Mr Hughes i'r Aelodau am eu hyder ynddo.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Cafodd Mr Dafydd Roberts ei ethol yn Is-gadeirydd.

**3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2018.
*(Cadarnhawyd y Cofnodion gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2018).*

**5 RHEOLI BUDDSODDIADAU**

Cyflwynwyd – adroddiad HSBC Global Management (UK) Limited hyd at Hydref 2019.

Rhoddodd y cynrychiolwyr o HSBC drosolwg manwl o bortffolio buddsoddi'r Ymddiriedolaeth Elusennol. Adroddwyd bod y marchnadoedd ariannol wedi wynebu cyfnodau ansicr dros y deuddeg mis diwethaf wrth i chwyddiant erydu gwerth daliadau arian parod. Gall y gost o fethu'r dyddiau mwyaf proffidiol yn y farchnad ariannol fod yn sylweddol a chyngor HSBC i fuddsoddwyr yw i beidio â masnachu i mewn ac allan o farchnadoedd mewn perthynas â rhan graidd y portffolio ac unwaith y mae buddsoddiad wedi'i wneud, y cyngor yw i gadw'r arian wedi'i fuddsoddi ac i gydbwyso amcan tymor hir y portffolio. Nodwyd bod y marchnadoedd ariannol wedi bod yn sefydlog dros y 10 mlynedd diwethaf ond gellir dadlau nad yw adenillion wedi bod cystal ag y buont yn y gorffennol ac mae angen addasu lleoliad y buddsoddiadau mewn dosbarthiadau asedau penodol; mae cael cyfrannau'r dosbarthiadau ased yn sylfaenol.

Cyfeiriodd Rheolwr Perthnasau HSBC at yr Adolygiad Addasrwydd Blynyddol o fewn y ddogfen a gafodd ei chylchredeg yn y cyfarfod a dywedodd bod portffolio'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn parhau i fod o fewn y proffil risg canolig, sydd â'r potensial am adenillion uwch. Mae portffolio'r ymddiriedolaeth wedi'i fuddsoddi o fewn model ar wahân i Strategaeth Twf ac Incwm y Gwasanaeth Elusennau sy'n golygu fod y buddsoddiad yn cael ei ddal o fewn ecwitïau unigol. Nododd y Trysorydd y defnyddir yr incwm o'r buddsoddiad ar gyfer grantiau bach, cyfraniad tuag at Oriel Ynys Môn, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc a Gemau'r Ynysoedd. Mae'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio yn cael ei ddefnyddio'n rhannol tuag at geisiadau am Grantiau Mawr. Ymatebodd y Rheolwr Perthnasau gan ddweud, hyd yn oed pan mae gwerth cyfalaf y portffolio yn gostwng mewn mis neu flwyddyn benodol, nid yw'r incwm yn amrywio'n ormodol gydag adenillion o 3%. Dywedodd Aelod o'r Pwyllgor yr hoffai weld y raddfa gyfalaf yn cyd-fynd â'r gyfradd sylfaenol. Ymatebodd y Rheolwr Perthnasau fod y cwmnïau y mae'r portffolio wedi'i fuddsoddi gyda nhw yn gwmnïau seiliedig ar werth ac yn ennill llog yn araf a rheolaidd. Ers y llynedd, mae'r incwm yn cael ei ail fuddsoddi o fewn portffolio'r Ymddiriedolaeth a phryd bynnag mae'r Ymddiriedolaeth angen arian o'r buddsoddiad, rhoddir rhybudd digonol i HSBC er mwyn iddo allu tynnu arian allan ar y cyfnod gorau posibl o fewn buddsoddiad yr Ymddiriedolaeth.

Cylchredodd HSBC Global Management (UK) Limited gyfres o gwestiynau am ddisgwyliadau'r Ymddiriedolaeth o ran y portffolio buddsoddi a chynhaliwyd sesiwn cwestiwn ac ateb. Cytunodd Aelodau bod Strategaeth Twf ac Incwm y Gwasanaethau Elusennol yn ffafriol ar gyfer portffolio'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD diolch i gynrychiolwyr Tîm Elusennau HSBC am fynychu'r cyfarfod ac i dderbyn yr adroddiad.**

## 6 DYRANIAD CYLLID AR GYFER GRANTIAU MAWR

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â dyrannu cyllid ar gyfer grantiau mawr yn 2020.

Adroddodd y Trysorydd bod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, dros y pedair blynedd diwethaf, wedi bod yn rhoi swm o arian i un ochr er mwyn ariannu ceisiadau llwyddiannus am grantiau mawr (symiau dros £8,000). Dyrannwyd

£200,000 yn 2016 a dyrannwyd £350,000 yn 2017, 2018 a 2019. Nododd y cafwyd 29 o geisiadau gan sefydliadau yn gofyn am gymorth yn 2019 gyda 12 o geisiadau'n llwyddo a'r £350,000 llawn yn cael ei ddyrannu. Dywedodd y Trysorydd bod grantiau mawr bob amser wedi eu hariannu gan unrhyw gynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio buddsoddi. Mae unrhyw refeniw sydd wedi'i greu gan y buddsoddiadau o ran llog a difidend a dderbynnir bob amser wedi cael ei defnyddio i ariannu'r grantiau llai. Dangoswyd cymhariaeth o werth cyfalaf y portffolio rhwng 30 Medi, 2018 a 30 Medi, 2019 yn Nhabl 1 o fewn yr adroddiad. Nodwyd, ym mis Tachwedd 2017 i'r Pwyllgor gytuno i osod gwerth y cyllid ar 20% o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio buddsoddi ac ym mis Tachwedd 2018, adroddodd y Rheolwr Buddsoddi fod cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio buddsoddi a phenderfynodd y Pwyllgor lynu at £350,000 fel swm yr arian a oedd ar gael.

Byddai dyrannu 20% o'r cynnydd yn y gwerth cyfalaf eleni ond yn darparu cronfa o £70,000 a allai fod yn annigonol er mwyn bodloni'r galw, tra byddai dyrannu £350,000, fel yn y blynyddoedd blaenorol yn golygu gostyngiad yng ngwerth cyfalaf y portffolio buddsoddi. Dywedodd y Trysorydd nad yw'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi gwarantu cyllid ar gyfer Grantiau Mawr yn flynyddol; mae wedi bod yn ddibynnol ar werth y buddsoddiad ac os yw'r Pwyllgor yn penderfynu ar swm o £340,000 (sy'n 100% o'r cynnydd yn y gwerth cyfalaf) a chymryd i ystyriaeth chwyddiant ar y cyfrif, bydd hyn yn lleihau gwerth y gronfa.

Nododd y Trysorydd bod y portffolio buddsoddi bellach wedi trosglwyddo ar draws i'r Sefydliad Elusennol Corfforedig, Cymdeithas Elusennol Ynys Môn. Mae'r Gymdeithas Elusennol eto i gyfarfod ac felly nid yw wedi amlinellu sut mae'n bwriadu defnyddio'r cyllid yn y dyfodol mewn perthynas â grantiau mawr a grantiau bach.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y pwyntiau canlynol:-

- Nodwyd nad yw dyrannu cronfa benodol ar gyfer Grantiau Mawr o reidrwydd yn golygu y bydd y swm llawn yn cael ei ddyrannu. Ymatebodd y Trysorydd y bydd yr Ymddiriedolaeth lawn yn gwneud penderfyniad o ran a fydd dyraniad Grantiau Mawr yn parhau neu a yw'n cefnogi'r swm a argymhellir gan y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau. Yn dilyn hynny, bydd y Pwyllgor Adfywio yn derbyn y ceisiadau am Grantiau Mawr ac yn penderfynu a ddylid cefnogi'r ceisiadau a dderbyniwyd os ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf angenrheidiol.
- Codwyd cwestiynau ynghylch a oedd grantiau nad oeddynt wedi eu hawlio yn y blynyddoedd blaenorol o'r arian a ddyrannwyd ar gyfer Grantiau Mawr. Ymatebodd y Trysorydd fod gan sefydliadau sydd wedi derbyn grantiau hyd at 4 blynedd (o fewn meini prawf yr Ymddiriedolaeth) i gwblhau'r prosiectau. Dywedodd hefyd y dosbarthwyd y £350,000 cyfan yn 2018/19;
- Codwyd cwestiynau o ran a fyddai £200-£250k yn erydu gwerth cronfa'r Ymddiriedolaeth. Ymatebodd y Trysorydd fod gan gronfa'r Ymddiriedolaeth £22 miliwn ynddo a nododd na fyddai dyrannu £200k-£250k yn lleihau incwm cronfa'r Ymddiriedolaeth;
- Roedd rhai Aelodau yn ystyried ei bod yn bwysig diogelu gwerth portffolio'r Ymddiriedolaeth ac na ddylid dyrannu cyllid ar gyfer Grantiau Mawr.

Yn dilyn pleidlais **PENDERFYNWYD argymell i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn na ddylid dyrannu cyllid ar gyfer Grantiau Mawr yn 2020 gan y byddai'n lleihau gwerth cronfa'r Ymddiriedolaeth.**

**Mr T Ll Hughes MBE**
**Cadeirydd**